

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llangywer
9/5/ 2016

Presennol: Eleri Jones (Cadeirydd), John Morris, Gwyn Roberts, Tyly Roberts, W D Williams, Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (Clerc)

- 1 Cadarnhawyd Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2015.
- 2 Etholwyd Eleri Jones yn Gadeirydd am y flwyddyn 2016-17.
- 3 Etholwyd Emyr Jones Is-gadeirydd am y flwyddyn 2016-17.
- 4 Enwebwyd Eleri Jones fel cynrychiolydd i gyfarfodydd ardal Un Llais Cymru, gyda WD Williams yn ddirprwy pe byddai angen.
- 5 Enwebwyd W D Williams a Tyly Roberts yn gynrychiolwyr ar Bartneriaeth Penllyn.
- 6 Adolygwyd a mabwysiadwyd Rheolau Sefydlog y Cyngor.
- 7 Adolygwyd a mabwysiadwyd y Côd Ymddygiad.
- 8 Mabwysiadwyd y Rheoliadau Cyllidol.
- 9 Adolygwyd a mabwysiadwyd y Polisi Amgylcheddol.
- 10 Adolygwyd a mabwysiadwyd y polisi Cyfle Cyfartal.
- 11 Adolygwyd a mabwysiadwyd y trefniadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
- 12 Adolygwyd a mabwysiadwyd y Polisi Pryderon a Chwynion.
- 13 Adolygwyd a mabwysiadwyd y Strategaeth Buddsoddi. Cytunwyd i geisio agor Cyfrif Cadw fel a argylhellir gan Un Llais Cymru.
- 14 Cadarnhawyd y Cytundeb rhwng y Cyngor Cymuned fel aelod o Bartneriaeth Penllyn â Chyngor Gwynedd (mewn egwyddor).
- 15 Adolygwyd a chadarnhawyd y trefniadau yswiriant.
- 16 Penodwyd John Roberts yn archwilydd mewnol ar gyfer 2016-17.
- 17 Cadarnhawyd y Mantolenni ac Adroddiad Ariannol ar gyfer yr Archwilydd.
- 18 Cadarnhawyd dyddiad cyfarfodydd 2016-17:
4/7/16
12/9/16
14/11/16
16/1/17
13/3/17
15/5/17